## Chwaraeon Cymru

Sefydlwyd Chwaraeon Cymru gan Siarter Brenhinol yn 1973 gyda'r nod o feithrin darpariaeth chwaraeon a hamdden gorfforol i'r cyhoedd yng Nghymru. Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cynghori'r llywodraeth ar bob mater sy'n berthnasol i chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac yn dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn ceisio sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau a'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn cael yr effaith orau bosib ar allu'r genedl yng Nghymru i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a chyflawni llwyddiant chwaraeon elitaidd. Rydym yn chwarae rhan arweiniol mewn galluogi ac ysbrydoli pobl Cymru i fod yn egnïol ac yn iach am oes, gan anelu at gael pob plentyn i wirioni ar chwaraeon a chreu cenedl o bencampwyr.

**Mae rhagor o wybodaeth am Chwaraeon Cymru ar gael yn www.chwaraeon.cymru.**

## Egwyddorion Cyffredinol

Wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

**Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- Ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynghylch unrhyw bolisïau a all effeithio ar weithredu'r Cynllun;
- Sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r Cynllun a'u cyfrifoldebau;
- Gweithredu'r egwyddorion y manylir arnynt yn y Cynllun gyda phob polisi, menter a gwasanaeth.



# Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

Mae llawer o'r gwasanaethau dwyieithog sy'n ofynnol dan Gynllun yr Iaith Gymraeg wedi bod yn eu lle ers rhai blynyddoedd. Er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y Cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gwnaed y trefniadau a ganlyn:

- Mae pob agwedd ar y Cynllun yn cael eu rheoli a'u monitro gan y Rheolwr Marchnata gyda chefnogaeth gan y Swyddog Datblygu Digwyddiadau, Marchnata a Busnes;
- Mae'r staff presennol i gyd yn ymwybodol o'u dyletswydd i gadw at y Cynllun ac mae staff newydd yn cael eu briffio ar y Cynllun fel rhan o'u cyflwyniad i'w swydd newydd;
- Mae tudalennau Cymraeg penodol wedi cael eu datblygu ar ein mewnrwyd gorfforaethol;
- Y Cynllun ar gael ar wefan Chwaraeon Cymru a chopïau papur ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd;
- Mae amrywiaeth o weithdrefnau yn eu lle i hwyluso darparu gwasanaethau yn yr iaith a ddewisir gan y defnyddiwr;
- Cyflogir cyfieithydd allanol ar gontract llawn amser gan Chwaraeon Cymru i ddarparu gwasanaeth cyfieithu effeithlon, cyson a safonol.

# Monitro ac Adrodd yn Ôl ar Berfformiad

Y Rheolwr Marchnata sy'n gyfrifol am redeg y Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd, gan gynnwys monitro sut mae Chwaraeon Cymru'n cadw at y Cynllun.

Mae'r Rheolwr Marchnata'n adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyfathrebu ac mae ganddo hawl i fynegi unrhyw bryderon os yw Chwaraeon Cymru'n gweithredu'n groes i unrhyw gymal yn y Cynllun neu i ysbryd y Cynllun. Ar lefel weithredol, mae gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth gyfrifoldeb corfforaethol am roi'r Cynllun ar waith, a'r Safonau perthnasol.

**Bydd Chwaraeon Cymru'n mesur ei ddarpariaeth Gymraeg yn erbyn nifer o ddangosyddion a gefnogir gan ddata meintiol am y canlynol:**

- Nifer a chanran y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi cael hyfforddiant yn y Gymraeg;
- Nifer a chanran y staff yn y sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg, gyda manylion yn ôl adran, lefel medrusrwydd a lleoliad y swyddfa;
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynghylch gweithredu'r Cynllun. Ymchwilir i bob cwyn a gwneir diwygiadau o ganlyniad i unrhyw gŵyn;
- Os yw'n bosib, byddwn yn ceisio casglu a dadansoddi data perthnasol i effaith ein dull o weithredu a'n buddsoddiadau ar y boblogaeth Gymraeg ei hiaith.

Adolygir y dangosyddion hyn yn flynyddol i sicrhau ein bod yn cofnodi cynnydd yn effeithiol.

Bydd Chwaraeon Cymru'n llunio adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun. Cyflwynir yr adroddiad i Fwrdd Chwaraeon Cymru a chaiff ei anfon ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg, ynghyd ag unrhyw Gynlluniau Gweithredu, erbyn y mis Medi canlynol.

# Delio â phartneriaid a'r cyhoedd

**Ar hyn o bryd mae 156 o Safonau'r Gymraeg yn ein nodyn cydymffurfio terfynol, wedi'u rhannu dan benawdau darparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredol a chadw cofnodion. Mae'r safonau hyn, ynghyd â gwybodaeth am sut byddwn yn cydymffurfio â'r Safonau, i'w gweld yn Atodiadau 1.**

## Staff

### SGILIAU IEITHYDDOL

Er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru'n gallu darparu ei wasanaethau yn y Gymraeg i safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd bob amser yn cynnal trosolwg o sgiliau ac adnoddau ieithyddol ei weithlu ac yn cydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio er mwyn hwyluso amcanion y Cynllun.

Ar gyfer pob swydd wag newydd, byddwn yn nodi'r lefel sgil ofynnol yn y Gymraeg – naill ai hanfodol, angen ei dysgu pan benodir i'r swydd, dymunol neu ddim yn angenrheidiol. Gall yr angen am siarad y Gymraeg newid gan ddibynnu ar nifer y siaradwyr Cymraeg eraill yn yr adran pan fydd y swydd wag yn codi. Cymraeg yn 'ddymunol' sy'n ddiofyn ar gyfer swyddi a gofynnir i'r holl Reolwyr ddarparu cyfiawnhad dros eu dewis wrth gwblhau'r ffurflen gofynion staff.

Cynhelir archwiliad ar y staff i sefydlu nifer, gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Rhoddir sylw i unrhyw brinder siaradwyr Cymraeg naill ai drwy hyfforddiant neu drwy recriwtio.



## HYFFORDDIANT YN Y GYMRAEG

Mae hyfforddiant iaith yn rhan bwysig o sicrhau bod gan y sefydliad ddigon o aelodau o staff i allu gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru'n awyddus i annog staff i ddysgu'r Gymraeg ac mae'n mynd ati i drefnu hyfforddiant Cymraeg i'r staff ar bob lefel.

Mae Chwaraeon Cymru'n awyddus i'w staff ddatblygu sgiliau Cymraeg, hyd yn oed os nad ydynt yn gweithio mewn rôl lle mae angen gwybodaeth am y Gymraeg o ddydd i ddydd. Gall staff sy'n dymuno dysgu'r iaith wneud cais am fynychu dosbarth iaith priodol. Mae'r holl staff sydd angen hyfforddiant yn y Gymraeg yn gallu mynychu cyrsiau hyfforddi yn ystod oriau gwaith.

## GRANTIAU

Er nad yw cadw at Gynllun yr Iaith Gymraeg yn amod ar ein grantiau cymunedol ar hyn o bryd, gofynnir i ymgeiswyr fanylu ar sut maent yn bwriadu adlewyrchu natur ddwyieithog eu cymuned a Chymru yn eu prosiectau. Gofynnwn i bob ymgeisydd am eu gallu presennol o ran y Gymraeg a lefel eu hadnoddau ar ôl dyfarnu'r grant.
Gellir rheoli'r broses grantiau gyfan yn y Gymraeg neu yn Saesneg ac ni fydd ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r ceisiadau a dderbynnir yn Saesneg.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am effaith yr iaith Gymraeg ar ein proses grantiau ar y tudalennau 'Cyllid' ar wefan Chwaraeon Cymru.

## DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Os gwneir ceisiadau penodol o dan y 'Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth', bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:

- Gohebu yn yr iaith o ddewis;
- Dosbarthu'r wybodaeth y gwnaed cais amdani'n ddwyieithog ble dylai gael ei chyfieithu o dan delerau'r Cynllun hwn;
- Os gwneir cais am hynny, darparu gwybodaeth yn y Gymraeg os mai dim ond yn Saesneg mae ar gael gan fod y ddogfen y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun hwn. Rhoddir gwybod i'r sawl sy'n holi bod y wybodaeth sy'n cael ei chadw y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun hwn ac yn cael ei chadw yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, gall Chwaraeon Cymru drefnu cyfieithiad Cymraeg os telir ffi am hynny;
- Cytunir ar unrhyw gost ymlaen llaw a chaiff ei phennu ar sail nifer y geiriau. Bydd y gost yn unol â chontract Chwaraeon Cymru ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfieithu.



# Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

- Bydd Chwaraeon Cymru'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun drwy gyhoeddi copi o'r Cynllun ar ei wefan a'i fewnrwyd.
- Arddangos arwyddion mewn swyddfeydd ac yn y Canolfannau Cenedlaethol yn rhoi gwybod bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.
- Bydd yr holl staff sy'n siarad Cymraeg yn cael bathodynnau sy'n dynodi eu bod yn siarad Cymraeg.
- Mae copïau papur o'r Cynllun hwn ar gael hefyd ym mhob un o'r swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

## ADBORTH A CHWYNION

Mae Chwaraeon Cymru'n sefydliad sydd wedi ymrwymo i annog y staff i gyd i wneud defnydd llawn o'r ddwy iaith. Rydym yn falch o amrywiaeth iaith ein gweithlu ac wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gwaith positif lle gall y Gymraeg ffynnu.

Rydym yn credu'n gryf bod defnyddio'r Iaith Gymraeg yr un mor bwysig yn fewnol ag ydyw wrth i ni gynnal ein busnes cyhoeddus. Byddai methu trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn fewnol yn tanseilio ein hymdrechion i weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r Safonau y mae'n rhaid i ni gadw atynt i'w gweld yn atodiadau'r ddogfen hon.



## SUT MAE GWNEUD CWYN:

Os bydd unrhyw un yn teimlo bod Chwaraeon Cymru'n methu cadw at Safonau'r Gymraeg neu os oes gan rywun unrhyw awgrymiadau, hoffem eich annog i gysylltu â ni:

**Y Rheolwr Marchnata**
**Chwaraeon Cymru**
**Caerdydd**
**CF11 9SW**

**E-bost:** communications@sport.wales

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw gwynion am ein gwasanaeth Cymraeg.

I'n helpu i brosesu eich cwyn yn gyflym, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Disgrifiad clir o'r gŵyn
2. Eich manylion cyswllt llawn, gan gynnwys cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost

**Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni:**

1. Cydnabod derbyn eich cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith
2. Ymchwilio'n llawn i'r gŵyn
3. Rhoi gwybodaeth gyson i chi am y cynnydd
4. Anfon ateb llawn o fewn 21 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosib, byddwn yn esbonio pam ac yn nodi dyddiad pryd allwch chi ddisgwyl ateb llawn.

## Cadw cofnodion

Fel rhan o gadw at Safonau'r Gymraeg, sylwer bod rhaid i ni gadw copïau o'r holl gwynion rydym yn eu derbyn yn berthnasol i sut rydym yn cadw at y Safonau, a rhoi gwybod am nifer y cwynion a sut rydym wedi eu rheoli yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

## Rhagor o wybodaeth

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am waith Chwaraeon Cymru yn **www.chwaraeon.cymru**

Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas a phwrpas Cynlluniau Iaith Gymraeg i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg **www.comisiynyddygymraeg.cymru**

